OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2383 (Cy.256)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4, Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun i Gyffordd 5, Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *26 Medi 2011*

*Yn dod i rym* *3 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2011. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4, Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun i Gyffordd 5, Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 3 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith reidio, na pheri reidio, unrhyw feiciau pedal ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 26 Medi 2011.

***G R Morgan***
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

**Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro**

Hyd cyfan y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 5, Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug.

## ATODLEN 2

**Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro**

Y darn hwnnw o'r brif gerbytffordd tua'r gogledd-ddwyrain y gefnffordd, sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 4, Cyfnewifa Ffordd Rhuthun, i ganolbwynt Cyffordd 5, Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug.